

BCW/2023/ Cyfarfod 1af

Y COMISIWN FFINIAU I GYMRU

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 10am ddydd Mercher 25 Ionawr 2023 trwy Microsoft Teams.

Yn bresennol:

Mrs Ustus Jefford

Dirprwy Gadeirydd

Pam Whitman
Neil Park

Aseswr (yr Arolwg Ordnans)
Aseswr (y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

Huw Vaughan Thomas
Sam Hartley

Comisiynydd
Comisiynydd

Shereen Williams

Ysgrifennydd y Comisiwn – Gadawodd am 11:13

Tom Jenkins
Carys Vaughan
Paul Elliott

Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn
Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn
Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn

Amser Dechrau: 10:04

Amser Gorffen: 11:28

1. CYFLWYNIAD, SYLWADAU AGORIADOL A DATGANIADAU BUDDIANNAU

1.1. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau buddiannau.

2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

2.1. Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

3.1. **Cytunodd** y Comisiwn ar gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ddydd Mawrth 13 Rhagfyr 2022.

4. MATERION YN CODI

4.1. Rhoddodd yr Ysgrifennydd ddiweddariadau ar faterion a gododd o gyfarfod y Comisiwn ar 13 Rhagfyr 2022.

Mater 1 – Llythyr diweddarau at Lefarydd Tŷ'r Cyffredin

- 4.2. Rhoddwyd ystyriaeth i'r llythyr drafft a thrafodwyd a **chytunwyd** ar fân newidiadau.

Mater 2 – Hyb y Deyrnas Unedig yng Nghymru

- 4.3. **Nodwyd** bod ymholiadau wedi'u gwneud ynglŷn â lle swyddfa yn adeilad swyddfa'r Deyrnas Unedig yng Nghymru yng Nghaerdydd. Mae'r Ysgrifennydd yn aros am ymateb gan ystadau.

5. COFRESTR RISG

- 5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 16 Ionawr 2023 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni a **nodwyd** y Gofrestr Risg.
- 5.2. **Cytunwyd** y dylai BCW8 gael ei dileu o'r Gofrestr Risg.
- 5.3. **Cam gweithredu:** Y Pennaeth Polisi a Rhaglenni i ddiweddarau'r Gofrestr Risg â'r newidiadau cytunedig.

6. FFURF YR ADRODDIAD ARGYMHELLION TERFYNOL

- 6.1. Ystyriodd y Comisiwn yr adroddiad dyddiedig 10 Ionawr 2023 gan y Pennaeth Polisi a Rhaglenni.
- 6.2. **Cytunwyd** na ddylai rhagair yr adroddiad fod ar ffurf llythyr eglurhaol ac y dylai ddilyn yr un fformat â'r Adroddiadau Cynigion Cychwynnol a Diwygiedig. Bydd y Pennaeth Polisi a Rhaglenni yn llunio rhagair drafft ar gyfer yr adroddiad a'i anfon at y Comisiynwyr ar gyfer cymeradwyaeth. **Cytunwyd** y bydd yr Ysgrifennydd yn cysylltu ag Ysgrifenyddion y 3 Chomisiwn arall i wirio fformat eu rhageiriau ac yn rhoi gwybod i'r Comisiynwyr.
- 6.3. **Nodwyd** bod Huw Vaughan Thomas wedi anfon diwygiadau at y Pennaeth Polisi a Rhaglenni cyn y cyfarfod.
- 6.4. Trafododd a **chytunodd** y Comisiwn ar nifer o ddiwygiadau. Bydd y Pennaeth Polisi a Rhaglenni yn diweddarau'r adroddiad a'i anfon at y Comisiynwyr ar gyfer cymeradwyaeth.
- 6.5. **Nodwyd** y bydd yr adroddiad yn cael ei anfon at y prawf-ddarllenydd ar 30 Ionawr. Dylai'r adroddiad gael ei ddychwelyd ar ddechrau mis Mawrth a chaiff ei anfon at y Comisiynwyr i'w gymeradwyo'n derfynol. Yna, bydd fersiwn derfynol yr adroddiad yn cael ei hanfon i'w chyfieithu. Pan fydd yr adroddiad yn cael ei ddychwelyd, bydd y Comisiwn yn trefnu iddo gael ei gyhoeddi gyda Swyddfa'r Llefarydd. **Nodwyd** na ellir cyhoeddi'r adroddiad hyd nes iddo gael ei gyflwyno gerbron y Senedd. Bydd y Comisiwn yn

sicrhau bod ganddo gopiâu argraffedig a thudalennau gwe yn barod i'w cyhoeddi o flaen llaw.

- 6.6. **Nodwyd** y bydd y Pleidiau Gwleidyddol a'r Comisiynwyr yn cael copi caled o'r Adroddiad Argymhellion Terfynol pan fydd yn cael ei gyhoeddi. Ni fydd staff y Comisiwn yn mynd i'r Senedd i roi copiâu o'r Adroddiad Argymhellion Terfynol a'r mapiau i Aelodau Seneddol.
- 6.7. **Nodwyd** mai'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno yw 1 Gorffennaf 2023.
- 6.8. **Cam gweithredu:** Yr Ysgrifennydd i gysylltu ag Ysgrifenyddion y 3 Chomisiwn arall i wirio fformat eu rhageiriau a rhoi gwybod i'r Comisiynwyr.
- 6.9. **Cam gweithredu:** Y Pennaeth Polisi a Rhaglenni i lunio rhagair a'i anfon at y Comisiynwyr i'w gymeradwyo.
- 6.10. **Cam gweithredu:** Y Pennaeth Polisi a Rhaglenni i ddiweddarau'r Adroddiad Argymhellion Terfynol gyda'r diwygiadau cytunedig a'i anfon at y Comisiynwyr i'w gymeradwyo.

7. UNRHYW FATER ARALL

- 7.1. Nodwyd bod yr Ysgrifennydd, y Pennaeth Polisi a Rhaglenni a'r 3 Chomisiwn arall wedi cyfarfod â H H Global i drafod cyflwyno'r Adroddiad Argymhellion Terfynol i'r Senedd. **Cytunwyd** ar ôl i Ysgrifenyddion y Comisiwn gyflwyno eu hadroddiad cynnydd ar gyfer mis Ionawr i'r Llefarydd, y bydd llythyr ar y cyd yn cael ei lunio a'i anfon i geisio eglurhad ynglŷn â ph'un a fydd Swyddfa'r Llefarydd neu'r 4 Comisiwn yn talu am y copiâu o'r Adroddiad Argymhellion Terfynol. Pan geir eglurhad, bydd y 4 Comisiwn yn rhoi gwybod i'w His-adrannau Noddi a fydd angen arian ychwanegol ar gyfer argraffu.
- 7.2. **Cytunwyd** y bydd cyfarfod yn cael ei drefnu i drafod Gwersi a Ddysgwyd ym mis Medi/Hydref 2023. Bydd y Pennaeth Polisi a Rhaglenni yn cylchredeg dyddiadau i'r Comisiynwyr yn ddiweddarach yn y flwyddyn.
- 7.3. **Cam gweithredu:** Y Pennaeth Polisi a Rhaglenni i gylchredeg dyddiadau i'r Comisiynwyr ar gyfer cyfarfod ynglŷn â Gwersi a Ddysgwyd ym mis Medi/Hydref 2023.